# Asesiad Perfformiad Panel Sir Gaerfyrddin - Ffurflen Ymateb

Mae'r Cyngor yn derbyn y casgliadau yn yr adroddiad yn llawn ac mae'n llwyr fwriadu dilyn yr holl argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Mae ymateb canlynol y Cyngor yn amlinellu'r camau rydym yn bwriadu eu cymryd i wneud cynnydd mewn perthynas ag argymhellion yr adroddiad er mwyn cryfhau ymhellach y graddau rydym yn bodloni ein gofynion perfformiad.

| Cyf. | Cyfle i Wella | Camau Gweithredu | Amser Cwblhau | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|
| **1. Maes Lleol i'w ystyried – Y Gwasanaethau Plant** | | | | |
| **1.1a** | Manteisio i'r eithaf ar ffrydiau cyllido i gyflwyno'r arferion gorau i gefnogi gwaith ataliol a datblygu cymunedol. | Byddwn yn defnyddio cyllid grant Dileu a Diwygio Radical i ddatblygu ac ehangu gweithgarwch ataliol newydd ymhellach a fydd yn cynnwys ystyried partneriaid cymunedol a'r trydydd sector | Mawrth 2028 | Darren Mutter, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai |
| **1.1b** | Adeiladu ar bartneriaethau presennol i weithio ymhellach â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau cymunedol. | Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Iechyd i integreiddio ein gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar ymhellach fel rhan o'r strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar. Byddwn hefyd yn cryfhau ein partneriaethau trwy ymgorffori'n amlasiantaethol ein Strategaeth Cymorth Cynnar ar gyfer Plant a Theuluoedd newydd. Byddwn yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd o weithio ar draws ac ar y cyd â'n partneriaid Gwasanaeth Cyhoeddus gan ganolbwyntio ar sicrhau datblygiadau beiddgar a thrawsnewidiol trwy drefniadau amlasiantaeth. | Parhaus | Darren Mutter, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai |
| **1.1c** | Ymgorffori gwaith cynnar pwysig ar atal o fewn y Rhaglen Drawsnewid ehangach ar gyfer y Gwasanaethau Plant. | Byddwn yn sicrhau bod gwaith ar Atal a Chymorth Cynnar, yn statudol ac yn anstatudol, yn cael ei gynnwys fel rhan o'r Rhaglen Drawsnewid ar gyfer y Gwasanaethau Plant ac yn cysylltu â gwaith atal ehangach sy'n cael ei wneud gan y Cyngor a'i bartneriaid. | Mawrth 2026 | Darren Mutter, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

| Cyf. | Cyfle i Wella | Camau Gweithredu | Amser Cwblhau | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|
| **1.1d** | Datblygu gwaith partneriaeth ymhellach gyda'r sector gwirfoddol a sefydliadau cymunedol ledled Sir Gaerfyrddin i ddatblygu pŵer cymunedol. | Byddwn yn parhau i weithio'n weithredol gyda'r trydydd sector wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau gan hefyd fanteisio ar y cyfle i adolygu ein trefniadau gweithio gyda Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin (CAVS). Byddwn yn parhau â'n hymrwymiadau cyllido o ran y rhwydwaith o ganolfannau a grwpiau teulu cymunedol y trydydd sector ledled Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn canolbwyntio ar fwriad strategol beiddgar, uchelgeisiol ac yn sicrhau mai pŵer cymunedol yw ein nod. | Parhaus | Darren Mutter, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai |
| **1.1e** | Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac adeiladu ar y gwaith integreiddio hynod effeithiol a sefydlwyd ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion er mwyn archwilio i weld a oes modd rhoi model tebyg ar waith ar gyfer y Gwasanaethau Plant. | Byddwn yn parhau i ddatblygu ffrydiau gwaith amlasiantaeth rhanbarthol sy'n bodoli eisoes ac sy'n gysylltiedig â chomisiynu ac anghenion cymhleth. Yn ogystal, byddwn hefyd yn adolygu'r trefniadau presennol i ystyried ffyrdd newydd o weithio ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant. | Mai 2027 | Darren Mutter, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai |
| **1.2a** | Cynyddu capasiti rheoli prosiect i wella rhaglennu ac i gyflymu'r broses o gyflawni trawsnewid. | Byddwn yn archwilio cyfleoedd i gynyddu capasiti rheoli prosiectau i gyflawni trawsnewid mewn gwasanaethau plant trwy incwm grant a chynigion twf. Yn ogystal, byddwn yn ystyried cysylltiadau â'r rhaglen drawsnewid ledled y Cyngor a fydd yn cael ei hadolygu dros y misoedd nesaf. | Mai 2026 | Darren Mutter, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai |
| **1.2b** | Rhoi'r adnoddau priodol angenrheidiol ar waith i gyflawni trawsnewid (gan gynnwys sefydlu Cronfa Drawsnewid y Cyngor y cyfeirir ati yn Argymhelliad 3). | Bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r rhaglen drawsnewid ledled y Cyngor a nodir yng ngham gweithredu 3.1 isod. | Ionawr 2027 | Darren Mutter, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai |

| Cyf. | Cyfle i Wella | Camau Gweithredu | Amser Cwblhau | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|
| **1.2c** | Sefydlu trefniadau monitro cadarn ar gyfer yr holl waith peilot gan gynnwys adolygiadau gateway a symud ar gyflymder i ehangu pan fydd y canlyniadau a ddymunir wedi'u cyflawni | Byddwn yn ceisio dynwared trefniadau sy'n bodoli eisoes drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau hyfywedd prosiectau presennol a bod modd eu hehangu. | Mawrth 2026 | Darren Mutter, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai |
| **1.2d** | Sicrhau bod data'n llywio ac yn sail i wneud penderfyniadau a bod hyn yn cael ei gyflawni o fewn fframwaith y Strategaeth Data a Deallusrwydd Artiffisial newydd. | Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau o'r gwaith y cyfeirir ato yn 1.2c ynghyd â gweithgarwch gwireddu buddion i sicrhau bod penderfyniadau strategol a phenderfyniadau ynghylch datblygu gwasanaethau yn cael eu llywio gan ddata. | Mawrth 2026 | Darren Mutter, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai |
| **2. Cynllunio Ariannol** | | | | |
| **2.1** | Rhoi Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni gwytnwch sefydliadol, cydbwysedd ariannol, a'r Strategaeth Gorfforaethol. | Paratoi Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) yn seiliedig ar wybodaeth a deallusrwydd presennol ar lefel gwasanaeth yn ogystal ag ystyried ffactorau rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang. | Mawrth 2026 | Chris Moore, y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol |
| **2.2** | Defnyddio'r polisi cronfeydd wrth gefn adrannol i greu cronfa benodol i gyflawni'r Strategaeth Drawsnewid. | 2.2.1 Blaenoriaethu nodi cronfeydd wrth gefn y gellir eu dyrannu i'r Strategaeth Drawsnewid fel rhan o'r broses Datganiad Cyfrifon Blynyddol.<br>2.2.2 Datblygu fframwaith Buddsoddi mewn Trawsnewid i wneud y mwyaf o wireddu manteision buddsoddi mewn trawsnewid. | Gorffennaf 2026 | Chris Moore, y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol |
| **2.3** | Adolygu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ystod y flwyddyn ac alinio â'r Strategaeth Drawsnewid, i ddarparu sicrwydd o ran cyflawni effeithlonrwydd a gostyngiadau mewn gwariant | Ar ôl cytuno ynghylch y Strategaeth Ariannol yn y Tymor Canolig (MTFS), cynnal adolygiad o'r Strategaeth Drawsnewid i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor a'r meysydd i'w datblygu. | Mawrth 2027 | Chris Moore, y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a Paul Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| **3. Trawsnewid ac Arloesi** | | | | |

| Cyf. | Cyfle i Wella | Camau Gweithredu | Amser Cwblhau | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|
| **3.1** | Adolygu, adnewyddu ac ail-lansio ei ymagwedd at drawsnewid a dylid rhoi adnoddau i'r Strategaeth Drawsnewid newydd i sicrhau ei bod yn addas i'r diben ar gyfer yr heriau presennol | Bydd y Strategaeth Drawsnewid yn cael ei hadolygu'n llawn ar ôl cytuno ynghylch y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Fel rhan o'r adolygiad hwnnw, bydd ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i'r adnoddau priodol sydd eu hangen i ysgogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth. Y nod yw cael Strategaeth Drawsnewid sy'n cyd-fynd yn llawn â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r broses o ran gosod cyllideb ar gyfer cylch cyllideb 2027-28. | Ionawr 2027 | Paul Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| **3.2** | Sicrhau bod y Strategaeth newydd yn un lefel uchel ac yn drawsbynciol i ysgogi model gweithredu targed ar gyfer y Cyngor a chanolbwyntio ar amcanion penodol i wasanaethau. | Fel rhan o'r adolygiad o'r Strategaeth Drawsnewid bydd model gweithredu targed yn cael ei ystyried a bydd cynllun yn cael ei ddatblygu os ystyrir ei fod yn briodol i'w weithredu ar draws y Cyngor. | Ionawr 2027 | Paul Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| **3.3** | Dod â strategaethau ategol at ei gilydd e.e., strategaethau ar gyfer y gweithlu a strategaethau digidol, i esbonio a chefnogi'r trywydd i'w ddilyn. | Mae gwaith ar y gweill i fapio'r strategaethau a'r cynlluniau sydd eisoes yn bodoli y mae angen eu bod yn cyd-fynd yn llawn â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Gorfforaethol a'r Strategaeth Drawsnewid, sef yr elfennau strategol craidd ar gyfer y Cyngor. Bydd y cynllun cyflawni ar gyfer pob un o'r strategaethau arweiniol craidd hyn yn cadarnhau'r aliniad â'r meysydd strategol ategol allweddol fel gweithlu, digidol ac ati | Mai 2026 | Paul Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| **3.4** | Cadw cymunedau wrth wraidd y strategaeth – ymgysylltu â nhw ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddynt a dod o hyd i ffyrdd newydd o gydweithio. | Bydd y cynllun ymgysylltu sy'n sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Strategaeth yn cael ei ddiweddaru | Ionawr 2027 | Paul Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| **3.5** | Cyfathrebu ac ymgysylltu ar draws y Cyngor er mwyn ategu'r gwaith | Bydd y cynllun cyfathrebu ar gyfer y Strategaeth Drawsnewid yn cael ei adnewyddu | Ionawr 2027 | Paul Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol |

| Cyf. | Cyfle i Wella | Camau Gweithredu | Amser Cwblhau | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|
| **3.6** | Gweithio gyda phartneriaid ar y cyd ac archwilio'r dull o rannu gwasanaethau a'r hyn y gallwch ei wneud gyda'ch gilydd. | Ymgysylltu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin (BGC) (a fforymau priodol eraill h.y. Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac ati) i hyrwyddo'r drafodaeth ac i sicrhau dealltwriaeth ynghyd â datblygu cynllun i wneud cynnydd o ran meysydd cydweithredu posibl. | Mawrth 2026 | Paul Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| **3.7** | Edrych y tu hwnt i'w ffiniau, adeiladu ar rwydweithiau presennol, a dysgu oddi wrth eraill. | Yn yr un modd â phwynt 3.6, gweithio drwy rwydweithiau presennol i ddatblygu cynllun ymhellach ar gyfer meysydd cydweithredu posibl a dysgu ar y cyd. | Mawrth 2026 | Paul Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol |

| **4. Addysg ac Ysgolion** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **4.1** | Cymryd camau i fynd i'r afael â nifer y diffygion mewn cyllidebau ysgolion. Lle bo angen a lle bo'n briodol, dylai'r Cyngor ddefnyddio'r polisi "diffyg trwyddedig" yn strategol. | Mae amrywiaeth o gamau gweithredu yn rhai parhaus i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Mae'r rhain yn cynnwys: cymorth o ran cyllidebau ysgolion cynradd; mentrau llythrennedd ariannol i wella gwybodaeth ariannol penaethiaid trwy gynadleddau, gweithdai, hyfforddiant, a dangosfwrdd cyllid Power-BI newydd ar gyfer meincnodi gwariant; adolygiadau ariannol ysgolion uwchradd; llythyron gwahaniaethol ffurfiol i ysgolion wedi'u categoreiddio yn ôl eu statws cyllidebol, gan ei gwneud yn ofynnol i'r rhai mewn diffyg neu rhai sy'n rhagweld diffygion ddatblygu cynlluniau adfer erbyn diwedd tymor yr haf; a gweithredu strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg (fel y nodir isod) | Parhaus | Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden (Aneirin Thomas, Allan Carter, Adam Barnett) |

| Cyf. | Cyfle i Wella | Camau Gweithredu | Amser Cwblhau | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|
| **4.2** | Parhau i ganolbwyntio ar faterion a heriau sy'n benodol i safle sy'n effeithio ar ysgolion unigol. | Mae'r gwaith yn parhau ar faterion sy'n benodol i safle sy'n gysylltiedig â strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg, y rhaglen gyfalaf cynnal a chadw ac ymweliadau iechyd a diogelwch. Mae pwysau sylweddol ar gyllidebau cynnal a chadw adeiladau ysgolion, o ran refeniw a chyfalaf. Mae'r pwysau hyn fwyaf mewn ysgolion hŷn, sydd yn aml yn llai o faint. Mae nifer o bryderon penodol wedi codi yn ystod y misoedd diwethaf, e.e. Ysgolion Blaenau, Bancffosfelen a Charwe. Mae gennym ystâd sy'n heneiddio, ac nid yw wedi bod yn bosibl cyfeirio gwariant cyfalaf i bob adeilad. | Parhaus | Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden (Aneirin Thomas, Allan Carter, Simon Davies) |
| **4.3** | Gweithredu'r "Rhaglen Moderneiddio Addysg." mynd i'r afael â materion capasiti gormodol a gwneud y defnydd gorau posibl o ôl troed cyffredinol yr ystad ysgolion. Dylai'r rhaglen hon lywio buddsoddiad y rhaglen gyfalaf a phenderfyniadau ar y "rhaglen cymunedau dysgu cynaliadwy." | Mae'r gwaith yn parhau i weithredu Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2024. Mae'r rhaglen waith bresennol yn cynnwys: cyflawni Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y prosiect Band B, a'r rhaglen dreigl; ymgynghori ynghylch newid nifer o ysgolion o 4-11 i 3-11; ymgynghoriadau ar nifer o achosion arfaethedig o gau ysgolion; prosiectau Ysgolion Bro; prosiectau cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol; prosiectau cyfalaf y Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg; a'r adolygiad o ddalgylchoedd. Fel rhan o Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg, bydd yr asesiad hyfywedd yn sail ar gyfer nodi prosiectau moderneiddio a chynigion rhesymoli dros y blynyddoedd nesaf. | Parhaus | Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden |

| Cyf. | Cyfle i Wella | Camau Gweithredu | Amser Cwblhau | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|---|
| **4.4** | Cynnal momentwm o ran yr adolygiad pwysig o ddalgylchoedd ysgolion. | Mae adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion ar fin cael ei gwblhau. Mae'r adolygiad wedi ystyried y cwestiynau allweddol canlynol: mae niferoedd dalgylchoedd wedi mynd yn anghytbwys o'u cymharu â chapasiti llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n gwasanaethu'r dalgylchoedd hynny; natur newidiol ôl troed ysgolion cynradd ac uwchradd ers 2010 a rhesymoli'r ddarpariaeth ysgolion cynradd a chau ysgolion cynradd mewn rhai ardaloedd, ynghyd ag aildrefnu'r ddarpariaeth ysgolion uwchradd yn ardaloedd Dinefwr a Chwm Gwendraeth; yr angen i gefnogi adolygiad o'r ddarpariaeth cludiant ysgol i wneud y rhwydwaith yn fwy effeithlon; ac mae'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi dod yn ffactor allweddol wrth gynllunio lleoedd mewn ysgolion wrth i fwy o ysgolion symud ar hyd continwwm y Gymraeg. | Bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2026 a bydd gwaith gweithredu'n dod nesaf | Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden |
| **4.5** | Adeiladu ar y trafodaethau cynnar ond cadarnhaol ynghylch addysg ôl-16. | Rydym wedi sefydlu Grŵp Goruchwylio Strategol 14-19 oed sy'n cynnwys ein holl benaethiaid uwchradd, cynrychiolwyr Coleg Sir Gâr, Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol a rhanddeiliaid gwahoddedig i ddadansoddi ac anelu at wella ein darpariaeth drwy gydweithio penodol. | Parhaus | Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden |